

## **Gweithgareddau Concer**

Os nad oes gennych conceri gallwch ddefnyddio unrhyw eitemau yn yr awyr agored y mae gennych lawer ohonynt. Mae'r gweithgareddau a'r profiadau hyn yn rhai y gellir eu defnyddio gydag unrhyw wrthrych. Bydd cyfraniad a syniadau'r plant wrth gasglu eitemau fel conceri yn holl bwysig i lwyddiant y gweithgaredd hwn ac wrth greu gemau tebyg i'r rhai a awgrymir isod. Bydd hyn yn cynyddu brwdfrydedd ac ymgysylltiad y plant.

### **Bwcedi Cyfrif Conceri**

Gan ddefnyddio'r cardiau rhif, bwcedi a chonceri, beth am greu gêm taflu conceri? Allwch chi roi trefn ar y bwcedi cyn dechrau'r gêm? Allwch chi gael y nifer cywir o gonceri ym mhob bwced trwy eu cyfrif fesul un? Pa mor dda mae'r plant am gyfrif? A allan nhw wirio eu bod wedi cyfri'n gywir pan maen nhw'n meddwl fod ganddyn nhw'r cyfanswm cywir? Tynnwch sylw at y rhif y maent yn ceisio ei gyrraedd ac yna cyfnewid gyda phlentyn arall i roi cynnig ar fwced â rhif gwahanol. Edrychwch sut mae'n nhw'n ceisio taflu'r conceri. Oes ganddyn nhw gydsymudiad corfforol da? Gofynnwch iddyn nhw feddwl beth allant ei wneud i'w gwneud hi'n haws neu'n anoddach taflu i'r fwced. Oes ganddyn nhw unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r gêm neu i greu gêm? Gallwch ymestyn y gêm gan roi/neu y plant i greu cardiau lluosu/rhannu a gweithio allan sawl concer i daflu i'r bwced.

### **Rasys Conceri**

Beth am chwarae gêm o rasys conceri? Trefnwch ddau grŵp gyda dwy ferfa a basged fawr o gonceri. Rhwch y cardiau wedi'u rhifo mewn dau bentwr wyneb i lawr. Gofynnwch i'r plentyn sy'n cael tro i droi'r cerdyn drosodd a darllen y rhif neu'r frawddeg rif. Gofynnwch i'r plant gludo'r nifer o gonceri sydd ar y cerdyn o un rhan o'r ardd i'r llall gyda'u berfâu. Ydyn nhw'n gallu cludo'r nifer cywir? Ceisiwch annog y plant i gyfri'n gywir a gofalus a gofynnwch i'r plant wirio fod y nifer cywir gan bawb arall hefyd. Ydyn nhw'n gallu amseru'r gêm gydag amserydd a phwy bynnag sydd â'r nifer fwyaf o gonceri yn eu bwced ar y diwedd sy'n ennill? Neu allen nhw addasu/gwella'r gêm? Mae llawer o waith cyfrif annibynnol yn y gêm hon yn ogystal â gwaith trafod y ffyrdd gorau o gyfrif niferoedd mawr.

### **Cyfrif Conceri a'u rhoi nhw mewn trefn yn yr Ardal Awyr Agored**

Taflwch y conceri ar y llawr ac anogwch y plant i'w casglu a'u cyfrif wrth iddyn nhw fynd yn eu blaenau. Modelwch ddulliau da o gyfrif trwy eu gosod mewn rhes a chyffwrdd eich bys ar bob un wrth fynd yn eich blaen. Gwnewch linell rif conceri gan ddefnyddio rhifau a chyfateb y nifer cywir y conceri gyda phob rhif. Mae angen i'r plant ymarfer sgiliau cyfrif mewn llawer o wahanol ffyrdd. Gellir cynnal gweithgareddau cyfrif, cyfatebu rhifau ac adnabod rhifau neu gweithio allan cyfansymiau.

Ym mhob un o'r gemau uchod mae llawer o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau eraill hefyd:

- Amser (A allant amseru eu hunain neu eraill, a allant ddefnyddio gwahanol fathau o fesuriadau amser (amseryddion wyau, amseryddion tywod, amserydd digidol, amseru amser penodol)
- Arian (A allant brynu eu conceri gyda gwahanol symiau o arian 1c, 2c, 5c, 10c, 20c, 50c, £1 gan roi newid a chyfrifo faint y gallant ei brynu gyda swm penodol) Efallai gallwch ddefnyddio sgŵps o wahanol feintiau am brisiau pendol.
- Amcangyfrif faint o gonceri sydd yno
- Cyfrif a gwirio mewn grwpiau o 2, 5, 10 neu grwpiau o 3 a 4.

- Cyfleoedd ymresymu rhifyddol wrth osod y gemau eu gwella a'u gwerthuso.